# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Tachwedd i'w hateb ar 13 Rhagfyr 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**1. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drefniadau sy'n bod i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw at eu cynlluniau gwariant. (OAQ14674)

**2. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A yw'n monitro pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu rôl o ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniadau mawr. (OAQ14664)

**3. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff roi adroddiad ar hynt yr astudiaeth gwmpasu o Gynghorau Cymuned. (OAQ14668)

**4. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau y gall y cyhoedd deimlo'n hyderus â safonau moesegol llywodraeth leol Cymru. (OAQ14689)

**5. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda'i chydaelodau yn y Cabinet am effaith datblygiadau newydd ar ariannu llywodraeth leol. (OAQ14662) [**R**]

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y modelau llywodraethu a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. (OAQ14709)

**7. Geraint Davies (Rhondda);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal gydag Awdurdodau Lleol am eu rôl o ran sicrhau nad oes tân gwyllt yn cael eu gwerthu i gwsmeriaid dan ddeunaw oed. (OAQ14700)

**8. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar â'i chydweithwyr yn San Steffan am reolau Gofyniad Benthyca'r Sector Cyhoeddus, a'u heffeithiau ar wariant llywodraeth leol ar dai cymdeithasol. (OAQ14675)

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd i addysgu deiliaid tai am bwysigrwydd gosod a chynnal larymau mwg. (OAQ14693)

**10. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar yr arian sydd ar gael i awdurdodau lleol i adnewyddu tai cyngor. (OAQ14680)

**11. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa drafodaethau y mae hi neu ei swyddogion wedi'u cynnal gydag awdurdodau lleol am drosglwyddo'r stoc dai. (OAQ14663)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff ddatganiad ar hynt y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. (OAQ14676)

**13. Brian Gibbons (Aberafan);** A wnaiff ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. (OAQ14687)

**14. Elin Jones (Ceredion);** A wnaiff hi ddatganiad ar rôl cymdeithasau tai mewn darparu tai cymdeithasol yng Nghymru. (OAQ14716) [**W**]

**15. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Sut mae Awdurdodau Lleol yn gofalu bod Aelodau'r Cynulliad yn gallu cysylltu'n rhwydd â swyddogion Llywodraeth Leol. (OAQ14699)

Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

**1. David Davies (Sir Fynwy);** Pryd bydd fersiwn ddiwygiedig Nodyn Cyngor Technegol 15 (1998) yn cael ei chyhoeddi yng Nghymru. (OAQ14630)**TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG**

**2. Gwenda Thomas (Castell-nedd);** A wnaiff hi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwaith sy'n cael ei gynnal ar Gyffordd 45 yr M4. (OAQ14636)

**3. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau ydy'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r cyrff perthnasol ynghylch datblygu'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Caerdydd a Chaergybi. (OAQ14659)

**4. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar ddefnyddio'r terfyn cyflymder o 20mya mewn ardaloedd trefol. (OAQ14639)

**5. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynrychioliadau y mae hi wedi'u cael ynghylch mesurau arafu traffig yn Rhaeadr. (OAQ14642)

**6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** I wneud datganiad ar bwysigrwydd cyfreithiau a rheoliadau cynllunio i ddyfodol Cymru. (OAQ14702)

**7. Delyth Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y

ddogfen ddrafft ar Bolisi Cynllunio. (OAQ14654)**TYNNWYD YN OL**

**8. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau ydy'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r cyrff perthnasol ynghylch datblygu'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Caerdydd a'r Cymoedd. (OAQ14658)

**9. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa rôl y mae'r Gweinidog yn ei ragweld i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran y Papur Gwyrdd ar Gynllunio. (OAQ14646)

**10. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynrychioliadau y mae hi wedi'u cael ynghylch ffordd liniaru yn Nhalgarth. (OAQ14643)

**11. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A all hi wneud datganiad ar y gwersi y gallai Cymru'u dysgu, yn dilyn ei hymweliad diweddar â Sweden er mwyn ystyried arferion rheoli gwastraff. (OAQ14656)

**12. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch rôl y system gynllunio i amddiffyn y Gymraeg fel iaith cymunedau. (OAQ14633)**TYNNWYD YN OL**

**13. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi ar waith er mwyn annog ailgylchu mewn ysgolion. (OAQ14661)

**14. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid a ddarparwyd ar gyfer mesurau atal llifogydd yng Ngogledd Cymru. (OAQ14627)

**15. Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y gwaith a gynhelir i wella a chynnal ffyrdd yng Ngogledd Cymru yn rhoi gwerth am arian. (OAQ14635)